**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Mehefin 26ain, 2024 am 6.30 yh**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Y Cyng<br>C. R. Thomas | Y Cyng<br>G. J. Davies | Y Cyng<br>H. Davies |
| | Y Cyng<br>D. W. Hopkins | Y Cyng<br>R.A. Davies | Y Cyng<br>J. Tandy |
| | Y Cyng<br>E. J. Davies | Y Cyng<br>R. Barnes | |
| **Yn mynychu arlein** | Y Cyng<br>A. W. Jones | Y Cyng<br>P. H. Roberts | Y Cyng<br>K. D. L. Davies |
| | Y Cyng<br>A. L. Thomas | Y Cyng<br>S. Roberts | |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cyng<br>I. Rh Llewelyn | Y Cyng<br>D. Thomas | Y Cyng<br>E. W. Nicholas |
| | Y Cyng<br>S. E. Thomas | Y Cyng<br>N. C. Davies | Y Cyng<br>A. J. Evans |

**473.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

.

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng<br>I. Rh Llewelyn | Y Cyng<br>D. Thomas | Y Cyng<br>E. W. Nicholas |
| Y Cyng<br>S. E. Thomas | Y Cyng<br>N. C. Davies | Y Cyng<br>A. J. Evans |

**474.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

**Dim.**

**475.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Statudol, a gynhaliwyd ar Fai 29ain, 2024.
- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fai 29ain, 2024

Cadeirydd

- Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar Fai 29ain, 2024.

**476.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater.

**477.**

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

**(i) Mr Andrew Wilson.**

Roedd un aelod o'r cyhoedd wedi hysbysu ymlaen llaw ei fod am siarad yn y cyfarfod, ac yn bresennol.

Roedd Mr Andrew Wilson, Peiriannydd Siartredig a phreswylydd lleol, wedi annerch y cynghorwyr ynghylch ei sylwadau am ymateb i lythyr oddiwrth y gweinidog llywodraeth Ken Skates yn rhoi adborth am y terfyn cyflymder 20 mya.

Roedd Mr Wilson wedi cynnig peth gwybodaeth gwerthfawr am ei waith ymchwil ym meysydd teithio a chludiant ac wedi datgan, yn ei farn ef, bod cyflwyno'r terfyn cyflymder 20 mya ar lawer o ffyrdd yn golygu bod oedi wrth deithio'n arwain at brisiau uwch am gludiant a gwasanaethau, ac yn amharu ar deithio effeithlon i'r ysgol ac i'r gwaith i lawer yn ein cymdeithas. Roedd hefyd o'r farn bod llawer o'r ffyrdd a ddynodwyd i dderbyn y terfyn cyflymder mewn ardaloedd a oedd y tu hwnt i ddadansoddiad rhesymol o'r canllawiau.

Roedd y Cadeirydd, y Cyng D. H. Hopkins, wedi diolch am y cyfraniad ac wedi mynegi ei farn ef, sylwadau a oedd yn cydfynd â llawer o'r hyn yr oedd Mr Wilson wedi sôn amdano.

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi mynegi ei farn ymtau wrth ddweud tra bod llawer o gydfynd gyda'r esiamplau a gynigiwyd yn erbyn y terfyn cyflymder 20 mya, roedd hefyd preswylwyr a oedd yn cytuno'n gryf bod y terfyn cyflymder wedi gwella diogelwch ar y ffordd, yn enwedig ar yr heol o Landybïe i Bentregwenlais.

Roedd y Cyng C. R. Thomas hefyd o'r farn bod y terfyn cyflymder 20 mya wedi gwella diogelwch ar Heol Cwmfferws, yn Saron, sef ei Ward hithau.

Roedd y Cyng A. W. Jones wedi mynegi ei farn bod y terfyn cyflymder 20 mya, cyn cyflwyno'r polisi penodol hwn, yn cael ei gyflwyno mewn ffordd reoledig a phwyllog mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Lleol, a bod y ffordd yr oedd wedi'i wthio drwodd yn golygu erbyn hyn bod camu'n ôl yn digwydd, er mwyn ail-asesu'r ffyrdd a ddynodwyd eu bod, ar frys, yn dod o dan y terfyn cyflymder 20 mya; tra bod y mater yn un goddrychol, roedd wedi achosi rhwystredigaeth fawr i gymunedau.

Cadeirydd

Roedd y Clerc wedi dod â'r eitem i ben drwy ofyn i Mr Wilson gyflwyno ei sylwadau ar ebost, a byddai'r mater yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder o dan yr adran ohebiaeth.

**(ii) Roedd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ian Morgan yn bresennol yn y cyfarfod.**

Roedd y SCCH Ian Morgan wedi annerch y Cynghorwyr gan roi diweddariad ynghylch plismona yn yr ardal a gwahoddodd gwestiynau ac adborth gan y Cynghorwyr.

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi gofyn am bresenoldeb yr Heddlu ger Ysgolion Cynradd er mwyn atal parcio dwbl a pharcio ar y pafin, gan fod hyn yn amharu ar ddiogelwch; hefyd i atal parcio ar dop y rhiw ac ym Mharc Pencae lle roedd rhieni penodol wedi bod yn parcio'n ddiystyriol.

Roedd y Cyng K. D. L Davies a'r Cyng G. J. Davies wedi tynnu sylw at broblemau parcio ac aros ger yr ysgol yn Saron; roedd y Cyng P. H. Davies yn cytuno â'r consyrn hwn ac hefyd am amlygu bod sefyllfa debyg yn bodoli yn Ysgol Gynradd Penygroes.

Roedd y Cyng E. J. Davies wedi gofyn i'r SCCH beth oedd ei bryder pennaf o fewn ei rôl fel swyddog cymunedol; atebodd y SCCH taw ei gonsyrn mwyaf oedd effaith cyffuriau yn y cymunedau, problem a oedd nid yn unig yn arwain ar droseddau eraill ond hefyd yn cael effaith tonnog ar droseddau eraill ac aflonyddwch cymdeithasol.

Roedd y SCCH Ian Morgan wedi nodi'r pryderon ac wedi cynnig darparu presenoldeb yn y lleoliadau dan sylw, ac ymweld ag Ysgol Gynradd Llandybïe i drafod y fath faterion gyda'r Pennaeth.

**478.**

## GOHEBIAETH

**(i) Llythyr oddiwrth Ken Skates AS ynghylch y terfyn cyflymder 20 mya.**

Roedd y Clerc wedi tynnu sylw at y llythyr oddiwrth y gweinidog llywodraeth Ken Skates AS a ddosbarthwyd i gasglu adborth a chynnig sylwadau ynghylch y terfyn cyflymder 20 mya i'r porthol llywodraeth dynodedig ac at y Cyngor Sir.

Roedd y Clerc wedi cychwyn y drafodaeth gan ddweud bod tipyn o drafod manwl eisoes wedi digwydd, a'i fod wedi trefnu cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd cyn cyfarfod cyffredin y Cyngor i drafod y strategaeth ymateb.

Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cyng J. Tandy, wedi ymuno yn y drafodaeth gan awgrymu bod Cynghorwyr pob ward yn cyfarfod er mwyn cyflwyno syniadau a sylwadau lleol i lunio ymateb i'w drafod, i'w gyfrannu at yr ymateb cyffredinol, ac i ystyried barn

Cadeirydd

Mr Wilson, a oedd wedi cyflwyno yn gynharach yn y noson, fel ymgysylltiad cymunedol.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn ebostio Cynghorwyr pob ward i ofyn iddynt gyfarfod neu ymgynghori i baratoi ymateb, ac i ebostio eu sylwadau at y Clerc cyn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn adrodd yn ôl ynghylch cynnydd yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf ym mis Gorffennaf.

**479.**

**Adroddiad y Clerc 21/06/24**

**AT: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau**

**(i) Saron a Chapel Hendre, Adran 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Mae'r Clerc yn gwasgu ar y Cyngor Sir am ymateb cyn Cyfarfod Cyllideb mis Medi.

**(ii) Siglenni mewn dau barc ym Mhenygroes a materion eraill.**

Mae'r siglenni ar gyfer Gors Ddu ac Heol Spien wedi'u harchebu ac y byddant yn cael eu gosod yng nghanol mis Awst.

Mae'r bwrdd Tenis Bwrdd wedi'i archebu, a bydd yn cael ei osod yn gynnar yng Ngorffennaf, ac mae'r fainc bicnic newydd wedi'i gosod.

**(b) Llwybrau Troed. Nid oes unrhyw ddiweddariadau ynghylch y Llwybrau Troed isod, ag eithrio 61/106.**

Mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol yn dal i wasgu ar dîm y Cyngor Sir ynghylch y llwybrau troed canlynol ac yn bwriadu cadw'r rhain yn Adroddiad y Clerc tan eu bod wedi'u datrys.

- **Bonllwyn 61/106;** Erbyn hyn mae Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin a'r adran gyfreithiol wedi dechrau'r broses gyfreithiol o ran ail-gyfeirio'r llwybr troed ac uwchraddio'r llwybr cyfan fel ei fod unwaith eto'n cysylltu heol Wern Ddu a Bonllwyn, ac yn creu cylch o gwmpas Rhydaman, gyda'r angen i groesi'r ffordd mewn un man yn unig. Bydd y Cyngor Sir yn talu am y gwaith.

Cadeirydd

- **Caerbryn 51/56;** Mae'r Clerc wedi gofyn am ymateb oddiwrth dîm hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir i'r ebost a ysgrifennodd 4 wythnos yn ôl yn gofyn os oes modd gwaredu peth o'r pridd, ac o dop y llwybr troed sy'n dynesu.
- **Penygroes 51/34 a 51/35, 51/33;** Tra bod ein contractwr yn ystyried 51/34, mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio 51/33 er mwyn cael y perchennog i dorri'r canghennau sy'n bargodi dros y llwybr; mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ddiweddariad. Mae 51/35 yn dal i gael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad Gilfach Iago. Mae'r Swyddog Gweinyddol wedi dilyn hyn i fyny drwy ofyn am ddiweddariad.
- **51/51**; Mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i ddelio â hyn oherwydd bod preswylydd wedi adeiladu sail i garej ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus, ac mae preswylydd arall wedi gosod offer chwarae drosto.

**(c) Clwb Rygbi Penygroes a chloi'r gât gyda'r nos.**
Mae Menter Cwm Gwendraeth wedi datgan nad ydynt am gynnig allweddi i'r rhai sydd am ddefnyddio eu cyfleuster ar ôl 4 yh neu am fynychu digwyddiadau am 6.15 yb.
Yn unol â'r penderfyniad a wnaethpwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn os y byddant yn derbyn cyfrifoldeb am ddifrod a achosir i dir ac eiddo'r Cyngor Cymuned pe byddai'n cael ei ddifrodi dros nos. Mae'n dal i aros am ymateb.

**(ch) Llechi TG at fusnes y cyngor.**

Mae'r Clerc wedi dosbarthu deuddeg llechen TG ac, yn ystod Cyfarfod Cyffredin Mehefin, bydd yn gofyn i'r cynghorwyr os oedd unrhyw anawsterau wedi codi, ac os oes angen arnynt unrhyw hyfforddiant. Mae'r cesys ar gyfer y llechi wedi cael eu harchebu, a disgwylir eu derbyn yn y man.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn ebostio'r holl Gynghorwyr i drefnu dyddiad ac amser addas i gynnal hyfforddiant.

**(d) Prosiect Park Banc Y Ddraenen:**

Erbyn hyn mae'r holl bosteri wedi'u dosbarthu ac mae'r Clerc wedi derbyn un galwad ffôn a dau ebost. Bydd y Clerc y trefnu cyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd, i'w gynnal ar Orffennaf 17eg.

**(dd) Y Cynllun Busnes Rheoli Asedau.**

Mae'r Clerc wedi llunio cynllun drafft ar ffurf taenlen i'w hebostio at y Cynghorwyr. Bydd y Clerc hefyd yn awgrymu ei fod yn cael ei drafod mewn manylder yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi.

__________________________

Cadeirydd

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn ebostio adroddiad drafft at y Cynghorwyr er mwyn amlygu unrhyw geisiadau am wariant yn eu wardiau.

**(e) Paratoi'r Archwiliad Mewnol.**

Erbyn hyn mae Lyn Llewelyn wedi gorffen yr Archwiliad Mewnol, ac mae'r Clerc yn disgwyl derbyn yr adroddiad terfynol cyn Cyfarfod Cyffredin mis Gorffennaf, a'i ddarllen i'r Cynghorwyr yn y cyfarfod hwnnw.

**Cynigiwyd** gan y Cyng E. J. Davies, ac **eiliwyd** gan y Cyng R. Barnes, derbyn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** derbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

**(f)Ein harchifau.**

Mae'r Clerc wedi trefnu cwrdd ag Adran Archifau Cyngor Sir Caerfyrddin i drafod y ffeiliau sydd gennym yn ein meddiant ac asesu'r broses.

**Diweddariad:** Mae hyn dal i'w wneud.

**(ff) Teledu Cylch Cyfyng Parc Saron.**

Mae'r Clerc dal yn chwilio am drydydd dyfynbris ac yn gobeithio comisiynu'r gwaith yn gynnar ym mis Gorffennaf.

**(g) Archwiliad Allanol.**

Bydd y Clerc yn cwblhau'r Archwiliad Allanol erbyn dydd Gwener, Mehefin 28ain.

Dai Nicholas – Clerc

Mehefin 21ain 2024

**480.**

**Diweddariad Gilfach Iago**

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach i'w gofnodi.
Cadarnhawyd hyn gan y Cynghorydd D. Thomas.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn adrodd yn ôl ynghylch unrhyw gynnydd Gyfarfodydd

Cyffredin y dyfodol.

Cadeirydd

**481.**

**(i) Monitro'r gyllideb yn fisol.**

Cyfrifon hyd at Fehefin 22ain 2024

## INCWM ar Fehefin 2il, 2024

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Praesept | 180000.00 | 60000.00 | **-120000.00** |
| Ffurflen TAW (Ad-daliad) | 17000.00 | 0.00 | **-17000.00** |
| Llog banc | 800.00 | 249.82 | **-550.18** |
| Cytundebau Llogi/Grantiau/ Adran 106 | 4700.00 | 24126.17 | **19426.17** |
| **Cyfanswm** | 202500.00 | 84375.99 | **-118124.01** |

## GWARIANT

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r glaswellt | £31,500.00 | £8,683.25 | **£22,816.75** |
| Cyflogau staff a PAYE | £61,864.00 | £11,213.42 | **£50,650.58** |
| Gwasanaethau swyddfa | £6,000.00 | £4,088.89 | **£1,911.11** |
| Yswiriant | £2,500.00 | £3,240.60 | **-£740.60** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £6,210.00 | **£13,790.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, adeiladau, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | £54,500.00 | £25,074.89 | **£29,425.11** |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £6,050.00 | £0.00 | **£6,050.00** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £15,875.00 | £977.00 | **£14,898.00** |
| Costau etholiad | £16,000.00 | £8,028.26 | **£7,971.74** |
| Adran 137 | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Goleuo | £6,000.00 | £0.00 | **£6,794.00** |
| Datblygu Cymunedol | £15,000.00 | £603.13 | **£14,396.87** |
| **Cyfanswm** | £255,289.00 | £68,119.44 | **-£187,169.56** |

Cadeirydd

**(ii) Talu'r cyfrifon.**

Taliadau a wnaethpwyd hyd at Fehefin 22ain, 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| 03/06/2024 | Arlein | Dŵr Cymru, anfoneb 5069084798, Pafiliwn Chwaraeon Saron | 321.02 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019104507, trydan Pafiliwn Chwaraeon Saron | 32.77 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019108655, trydan Llifoleuadau Capel Hendre | 21.96 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019144915, trydan Pafiliwn Penygroes, | 25.96 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019161042, trydan Pafiliwn Heol Woodfield | 5.18 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019139017, trydan Pafiliwn Bowlio a Thenis | 186.64 |
| 03/06/2024 | Arlein | EDF Energy,anfoneb 000019212052, trydan Sied Fowlio Llandybïe | 39.10 |
| 03/06/2024 | Arlein | Gallagher Annual Insurance, anfoneb 532849341 | 3240.60 |
| 03/06/2024 | Arlein | Morgan & Morgan, anfoneb 00084462, Band Llydan Misol | 35.99 |
| 03/06/2024 | Arlein | Martin Davies, cyfieithu cofnodion Cyfarfod Cyffredin Ebrill | 228.80 |
| 03/06/2024 | Arlein | KD Gardening Services, Mai, anfoneb 159, Glanhau'r Toiledau | 891.25 |
| 10/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019386599, trydan Pafiliwn Chwaraeon Saron | 70.21 |
| 10/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019387339, trydan Pafiliwn Penygroes | 56.03 |
| 10/06/2024 | Arlein | EDF Energy, anfoneb 000019389065 trydan llifoleuadau Capel Hendre | 47.11 |
| 10/06/2024 | Arlein | Cyllid y Wlad, Mai cyf. 615PF00123687, cyfraniad PAYE | 1005.54 |
| 10/06/2024 | Arlein | D. Nicholas, ad-daliad am rwydi Tenis i Gwrt 3 | ---------- |
| 10/06/2024 | Arlein | Jems Environmental, Profion Clefyd y Llengfilwyr, anfoneb 2572, toiledau/adeiladau | 843.77 |
| 10/06/2024 | Arlein | Jems Environmental, Profion Clefyd y Llengfilwyr, anfoneb 2703, toiledau/adeiladau | 1687.54 |
| 10/06/2024 | Arlein | Morgan & Morgan, anfoneb 00085057, Llechi TG x 10 | 1755.96 |
| 10/06/2024 | Arlein | Morgan & Morgan, Papur Cofnodion, anfoneb 00085011, ar gyfer y cofnodion blynyddol | 71.86 |
| 10/06/2024 | Arlein | Martin Davies, Cyfieithu'r Cofnodion Statudol, Cyffredin a Chynllunio | 276.83 |
| 10/06/2024 | Arlein | Uniserve Wales Fire Extinguishers, Annual Fire Extinguisher Check | 289.20 |
| 10/06/2024 | Arlein | Uniserve Wales Fire Extinguishers, Annual Fire Extinguisher Check | 333.60 |

Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10/06/2024 | Arlein | Uniserve Wales Fire Extinguishers, Annual Fire Extinguisher Check | 54.00 |
| 10/06/2024 | Arlein | Sian Taylor, treuliau a theithio 3 mis | 162.35 |

Taliadau sydd yn ddyledus cyn diwedd Mehefin 2024:

- Cyllid y Wlad -Taliad am y mis a ddaw i ben ar Orffennaf 5ed £1,005.
- Newhall Janitorial – nwyddau toiled, £196.16
- Martin Davies – cyfieithu nodiadau, £40.30
- BT Cysylltiad y swyddfa a’r ffôn, £58.00
- Morgan and Morgan – cytundeb 12 Mis am gysylltiad ffeibr, 35.99
- Morgan & Morgan - gosod i fyny’r Llechji TG, yn unol â’r dyfynbris, £351.19
- Morgan & Morgan – cost y llun-gopïwr am 2 fis, £10.18
- EDF Energy – trydan ym Mhafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe, £50.87
- EDF Energy – trydan ym Mhafiliwn Llandybïe, £39.09
- EDF Energy – trydan MUGA Llandybïe, £24.13
- SSE Energy – trydan i Swyddfa a Siambr Llandybïe am 6 mis, £834.50

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR CYMUNED LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL** | | | | | |
| **Mantolen 2024-2025 Cyfrifon o Ebrill 1af.** | | | | | |
| | | | | | |
| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/3/2025** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd ymlaen (balans cychwynnol yn y banc) gan gynnwys sieciau na’s cyflwynwyd** | | | | | **£312,607.63** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£85,776.02** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£398,383.65** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£59,366.20** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau’r Daenlen Gyllid** | | | | | **£339,017.45** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/ Sieciau na’s cyflwynwyd** | | | | | £600.00 |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£339,017.45** |

Cadeirydd

Roed y Cyng R. A. Davies wedi gofyn bod y Clerc y cynnwys mwy o fanylion pan yn disgrifio’r taliadau, megis er enghraifft y toiledau a gwasanaethu’r diffoddwyr tân, gan nodi pa doiledau neu adeilad y cyfeiriwyd atynt. Roedd y Clerc wedi cytuno cywiro hyn ar gyfer yr adroddiad neaf a gyflwynir i gyfarfod mis Gorffennaf.

Roedd y Cyng R. A. Davies hefyd wedi mynegi ei bryder ynghylch lefel costau trydan Pafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe; dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn i beiriannydd gwresogi ystyried gosod gwresogyddion trydan mwy economaidd fel rhan o’r cynllun hwn; roedd y Cyng A. W. Davies wedi gwneud cais ein bod yn ystyried grantiau a phaneli solar datrysiad a fyddai, o bosib, yn cynnig arbedion hirdymor.

Cynigiwyd gan y Cyng C. R. Thomas, ac eiliwyd gan y Cyng G. J. Davies, bod y gyllideb a’r taliadau o’r cyfrifon, gyda’r gwelliannau, yn cael eu derbyn.

Roedd yr aelodau wedi **penderfynu** gofyn i’r Clerc ddiwygio’r cofnodion, yn cymeradwyo bod y gyllideb a’r taliadau yn gywir, a’i fod yn archwilio’r datrysiad gwresogi ym Mhafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe.

**(iii) Yr Archwiliad Mewnol, y Cyfrifon Blynyddol a’r Ffurflen Flynyddol.**

Eglurodd y Clerc bod y Cyfrifon Blynyddol terfynol wedi’u cwblhau ac roedd wedi dosbarthu’r datganiad cyfrifon terfynol; roedd hwn yn gytbwys, ac wedi’i gysoni gyda’r datganiadau banc.

Yna gofynnodd y Clerc bod y Cyfrifon Blynyddol terfynol yn cael eu derbyn fel rhai cyflawn a chywir, ac fe gynigiwyd hyn gan y Cyng ............... a’i eilio gan y Cyng ...........

Aeth y Clerc ymlaen i ddatgan bod y Cyngor wedi bodloni, yn ffurfiol, yr Archwiliad Mewnol, ac wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiad yr Archwiliad Mewnol Terfynol a luniwyd gan Lyn Llewelyn wedi’i ddosbarthu cyn y cyfarfod; gofynnodd bod hwn yn cael ei dderbyn a’i nodi yn y cofnodion.

Cynigiwyd hyn gan y Cyng E. J. Davies ac eiliwyd gan y Cyng R. Barnes.

**Penderfynwyd** derbyn y Cyfrifon Blynyddol terfynol a gyflwynwyd gan y Clerc.

Hefyd**, penderfynwyd** derbyn yr adroddiad Archwiliad Mewnol terfynol a luniwyd gan yr Archwilydd Mewnol.

**482.**

**Cynllun Pensiwn y Staff - diweddariad.**

Eglurodd y Clerc ei fod ond newydd dderbyn ymateb oddiwrth Gronfa Bensiwn Dyfed gydag esboniad ynghylch y broses o dderbyn y staff i’r Cynllun Pensiwn, ond bod angen gwneud cyfraniad o 27% yn flynyddol o’r gyllideb gyflog.

____________________________
Cadeirydd

Roedd y Cyng A. W. Jones o'r farn bod y ffigwr hwn braidd yn uchel; roedd yn deall bod cynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol yn ddrud, ond bod cynlluniau eraill ar gael, ac efallai bod modd archwilio'r rhain.

Eglurodd y Clerc bod swyddogion cronfa yng Nghyngor Sir Caerfyrddin wedi esbonio bod angen cyfraniad uwch oherwydd oedran y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, a'u bod yn ymuno â chynllun aeddfed.

Gofynnodd y Cyng C. R. Thomas os oedd modd cynnal pleidlais ond eglurodd y Clerc bod hawl statudol gan staff i dderbyn pensiwn a'i fod yntau am weld eglurhad pellach o'r ffigyrau hyn. Roedd y Cyng R. A. Davies o'r farn bod angen i'r Clerc ofyn am eglurhad mwy manwl o'r pecyn pensiwn cyn bod modd dod i benderfyniad.

**Penderfynwyd** atal dod i benderfyniad tan Cyfarfod Cyffredin mis Gorffennaf er mwyn rhoi i'r Clerc y cyfle i archwilio'r sefyllfa ymhellach drwy ofyn i Swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed am ddadansoddiad mwy manwl ac esboniad o'r pecyn sy'n cael ei gymeradwyo.

**483.**

**Cyllid Adran 106.**

Nid oedd gan y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol unrhyw wybodaeth bellach i'w gynnig.

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Ni chynigiwyd unrhyw wybodaeth.

**484.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Gorffennaf 31ain, 2024.

Roedd y Clerc hefyd wedi gwneud cais bod y cyfarfod Polis Blynyddol yn cael ei gynnal am 6.30yh a chyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd yn cael ei drefnu am 7yh ar Orffennaf 17eg. Cytunwyd gwneud hyn.

**485.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y **Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.50 yh.

____________________________

Cadeirydd